Cenn@d

IONAWR 21 2026 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 256

# Lansio Rhestr Gwylio’r Byd 2026

Roedd mwy nag erioed o Aelodau Seneddol – cyfanswm o 110 – yn cael eu cynrychioli yn San Steffan yn lansiad diweddaraf Rhestr Gwylio’r Byd ar 14 Ionawr. Trefnir y lansiad yn flynyddol gan fudiad Open Doors, ac mae’r mudiad, sy’n lladmeru ar ran yr eglwys sy’n cael ei herlid yn y byd, yn ddiolchgar i bawb a wahoddodd eu Haelodau Seneddol i’r lansiad.

Ymhlith y 110 o Aelodau Seneddol oedd yn bresennol, yr oedd y pedwar canlynol o Gymru:

**Chris Evans** – Caerffili; **Ruth Jones** – Gorllewin Casnewydd ac Islwyn; **Ben Lake** – Ceredigion Preseli; **Nick Thomas-Symonds** – Torfaen.

**Trosolwg o’r tueddiadau**

Yn dilyn cyflwyniad gan Ruth Jones AS, fe gymerodd Henrietta Blyth, Prif Weithredwr Open Doors yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon, yr awenau. Tynnodd sylw at y cynnydd o 8 miliwn yn nifer y Cristnogion ar draws y byd sy’n dioddef lefel uchel o erledigaeth ac anghyfartaledd, gan ddod â’r cyfanswm i 388 miliwn. Yna, aeth ati i ganolbwyntio ar y tueddiadau oedd wedi dod yn amlwg o’r adroddiad diweddaraf hwn.

“Mae Nigeria yn Affrica is-Sahara. Dyma ranbarth sy’n lle peryglus iawn i Gristnogion. Mae 14 o’r gwledydd sydd ar Rhestr Gwylio’r Byd eleni i’w cael yno,” meddai, gan fynegi rywfaint o ryddhad fod pobl o’r diwedd yn dechrau sôn am yr hyn sy’n digwydd yn Nigeria.

Y wlad sydd wedi symud i fyny’r rhestr fwyaf yw Syria, gan neidio 12 o lefydd i fod yn 6ed, yn bennaf oherwydd cynnydd mawr



David Smith AS, Llysgennad Arbennig y Deyrnas Unedig dros Ryddid Crefydd a Chred, yn siarad yn lansiad seneddol Rhestr Gwylio’r Byd

mewn trais. “Ac mae’r pwysau’n cynyddu ym mhob man,” esboniodd Henrietta Blyth. “Hyd y gwyddom, nid y llywodraeth newydd [Hay’at Tahrir al-Sham] sy’n gyfrifol am hyn, ond y gwagle o ran diogelwch, llywodraethiant sy’n rhanedig a chan grwpiau eithafol lleol – y cyfan yn gwneud y Cristnogion yno yn agored i niwed.

“Mewn mannau eraill, mae’r cynnydd mewn malurio a’r wasgfa ar Gristnogion yn gyrru’r eglwys i guddio ac i fodoli’n danddaearol. Po fwyaf y wasgfa, anoddaf yn y byd ydyw i hysbysu’r byd y tu allan am yr hyn sy’n digwydd mewn gwirionedd, neu i fod yn onest amdano.” Esboniodd sut yr oedd yr hyn a welwyd ers blynyddoedd mewn llawer o wledydd fel Afghanistan, Algeria, China ac Iran, yn cael ei weld bellach, a’i effaith ddifaol yn Tunisia a Mauritania.

**Llais dros Iran a Somalia**

Fe gafwyd dau gyfweliad yn ystod y digwyddiad, y cyntaf gyda Bahar* o Iran. Dechreuodd drwy rannu sut y bu i’w thad gael ei garcharu ddwywaith pan oedd hi’n blentyn – am ddau fis ac yna am flwyddyn.

“Bob un dydd, dwi’n poeni am Gristnogion sy’n byw yn y wlad,” meddai Bahar, wrth iddi sôn am y protestio eang a welwyd ar hyd a lled Iran yn ddiweddar iawn. Anogodd y rhai oedd yno i godi eu llais dros y rhai sy’n dioddef dan y drefn sy’n bodoli yn Iran.

Cafwyd ail gyfweliad gyda Christion a fu’n rhannu ei brofiad yn Somalia, sy’n ail i Ogledd Corea ar Restr Gwylio’r Byd. Tynnodd sylw at y parch sydd tuag at lywodraeth y Deyrnas Unedig yn Somalia, ac anogodd yr Aelodau Seneddol i ddefnyddio’r berthynas dda honno i eiriol dros y rhai sy’n dioddef oherwydd eu ffydd yn Somalia.

Ychwanegodd David Smith AS, Llysgennad Arbennig y Deyrnas Unedig dros Ryddid Crefydd a Chred, ychydig eiriau. “Rhaid i ni fod yn llais i fynegi’r straeon enbyd yma,” meddai. “Ddylai neb orfod byw mewn ofn oherwydd eu ffydd neu eu cred. Y lleiaf y gallwn ni ei wneud yw codi ein llais, a dwi’n eich hannog chi i wneud hynny.”


Canmolodd waith Open Doors a’r mudiadau eraill sy’n eiriol dros ryddid crefydd a chred, gan sôn yn arbennig am Nigeria a’r cynnydd mewn ymwybyddiaeth o’r hyn yr oedd pobl yn ei ddioddef yno. “Nawr piau hi i ddweud am Nigeria,” meddai.

**Galwad i ddal ati i sôn**

“Dylai pobl ddal ati i sôn am y Cristnogion yn Affrica Is-Sahara, oherwydd mae yna rai sy’n ymosod arnom ni bob dydd,” oedd geiriau gweinidog o Nigeria o’r enw Barnabas mewn fideo a gafodd ei dangos. “Rydyn ni am i bobl rannu’r newyddion yma efo pawb, a dal ati i siarad am y peth, er mwyn i ni gael ein harbed.”

Wrth gloi, fe gydnabu Henrietta Blyth fod pethau wedi gwella ers i Esgob Truro adolygu cefnogaeth y Deyrnas Unedig i Gristnogion oedd yn cael eu herlid saith mlynedd yn ôl, ond gan bwysleisio bod erledigaeth ar Gristnogion wedi cynyddu oddi ar hynny.

“Mewn cyd-destunau bregus ac ymfflamychol, mae erledigaeth ac anghyfartaledd yn ffynnu yn y bylchau –



Map o’r gwledydd hynny lle ceir erledigaeth ar Gristnogion: coch – difrifol; oren – drwg iawn

(parhad ar y dudalen nesaf)

Gair o Gyngor yr Ysgolion Sul
Tudalen 4

Adolygiad Llywodraeth Cymru o Orchymyn Eithriadau Gofal Plant – diweddariad
Tudalen 5

Cofio’r Daith Ddiddorol
Tudalen 7

## *Lansio Rhestr Gwylio'r Byd 2026*

*(parhad o dudalen 1)*

lle mae sefydliadau'n wan, diffyg atebolrwydd a'r rhai sy'n gweithredu'n dreisgar yn credu nad oes neb yn eu gwylio. Dyma lle gall llais ein llywodraeth wneud gwahaniaeth," meddai. "Dydy ein partneriaid ddim yn gofyn am gydymdeimlad nac arian. Maen nhw'n gofyn am wroldeb moesol. Maen nhw'n gwybod bod llywodraethau'n gwrando pan mae llywodraeth y Deyrnas Unedig yn siarad."

Gwnaeth nifer o alwadau ar y llywodraeth i dynnu sylw at achosion o ddiffyg rhyddid crefyddol neu ryddid cred, gan eu hannog i gynnwys sgyrsiau am ryddid crefyddol yn rhan o drafodaethau ar faterion eraill, siarad yn gyhoeddus pan fyddai'n haws bod yn fud, gweithredu'n gynnar mewn rhanbarthau bregus a sicrhau awdurdod ac effeithiolrwydd rôl y Cennad Arbennig.

"Pan na fydd cyfleoedd yn cael eu cymryd i ddiogelu'r rhai a erlidir, dydy'r distawrwydd ddim yn niwtral – mae'n cael ei ddarllen fel caniatâd," meddai wrth gloi.

**4,849**
**O Gristnogion wedi eu lladd oherwydd eu ffydd y llynedd**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Gogledd Corea | 11 | Afghanistan | 31 | Tunisia |
| | | 12 | India | 32 | Nicaragua |
| 2 | Somalia | 13 | Saudi Arabia | 33 | Bangladesh |
| | | 14 | Myanmar | 34 | Bhutan |
| 3 | Yemen | 15 | Mali | 35 | Turkmenistan |
| | | 16 | Burkina Faso | 36 | Ethiopia |
| 4 | Sudan | 17 | China | 37 | Cameroon |
| | | 18 | Irac | 38 | Oman |
| 5 | Eritrea | 19 | Maldives | 39 | Mozambique |
| | | 20 | Algeria | 40 | Kyrgyzstan |
| 6 | Syria | 21 | Mauritania | 41 | Türkiye |
| | | 22 | Gweriniaeth Ganolog Affrica | 42 | Yr Aifft |
| 7 | Nigeria | 23 | Moroco | 43 | Comoros |
| | | 24 | Ciwba | 44 | Qatar |
| 8 | Pacistan | 25 | Uzbekistan | 45 | Kazakhstan |
| | | 26 | Niger | 46 | Nepal |
| 9 | Libya | 27 | Tajikistan | 47 | Colombia |
| | | 28 | Laos | 48 | Chad |
| 10 | Iran | 29 | DRC | 49 | Gwlad yr Iorddonen |
| | | 30 | Mecsico | 50 | Brunei |

# Gwahoddiad i Goleg y Bala – rhaglen mis Chwefror

**Aduniad Souled Out: 06–88/02/26**
Cyfle grêt i bobl ifanc 15–19 oed ar ddechrau'r flwyddyn i ddal i fyny gyda hen ffrindiau, cwrdd â phobl newydd a mwynhau gweithgareddau hwyl. Mae'r prif sesiynau bob amser yn uchafbwynt wrth i ni addoli Duw, dysgu mwy amdano drwy'r Beibl a gwrando ar storïau anhygoel am beth mae Duw yn ei wneud ym mywydau pobl! Archebwch eich lle heddiw fan hyn.




**Chwalfa Chwefror: 16–17/02/26**
Deuddydd yn ystod hanner tymor Chwefror i blant 8–11 oed yn llawn gemau, heriau, chwaraeon, canu, nofio a lot mwy. Mae'n gyfle gwych, llawn hwyl, i blant gael dysgu mwy am Iesu. Mi fedrwch archebu lle i'ch plentyn heddiw fan hyn.




**Cwrs Chwefror: 20–22/02/26**
Bydd sesiynau yn llawn gemau newydd, crefft, amser i ymlacio yn y 'stafell chwarae', chwaraeon, amser i ddal i fyny hefo hen ffrindiau a gwneud ffrindiau newydd; bydd yna nofio, 'inflatables a lot mwy. Mi fyddwn ni hefyd yn edrych ar y Beibl gyda'n gilydd mewn ffordd hawdd i'w deall a pherthnasol i fywyd ieuenctid heddiw!

Mae'r Cwrs ar gyfer ieuenctid blynyddoedd uwchradd 7–10 o Gymru gyfan. Cost y Cwrs yw £82, sy'n cynnwys pob dim fyddan nhw ei angen ar gyfer y penwythnos; mae'r 2il a'r 3ydd person o'r un teulu yn hanner pris! Mi fedrwch chi archebu lle i'ch person ifanc fan hyn.




**Anogir chi yn yr eglwysi i rannu'r wybodaeth am y cyrsiau yma gyda'r plant a'r ieuencitd sy'n gysylltiedig efo'ch eglwys chi. Byddem yn ddiolchgar hefyd os byddech yn cofio mewn gweddi am yr arweinwyr a'r trefniadau i gyd a'r cyrisiau wrth iddyn nhw ddigwydd.**

**Os nad yw'n bosibl i chi archebu ar-lein neu os oes gennych chi unrhyw gwestiwn, plis cysylltwch gyda ni ar colegybala@ebcpcw.cymru / 01678 520565 fel y gallwn ni bostio copi o'r ffurflen gofrestru atoch chi.**

*Ni ddylai talu am gwrs fod yn rhwystr i unrhyw un ddod. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'ch arweinydd lleol neu ag Angharad yng Ngholeg y Bala (cyswllt uchod).*

# Colli'r Parch. Ddr Robert Cunville



Gyda chalon drom y clywsom yma yng Nghymru am farwolaeth cyfaill annwyl i ni fel Eglwys Bresbyteraidd Cymru, sef y Parch Ddr Robert Cunville. Bu farw yn dilyn gwaeledd byr fore Sadwrn, 17 Ionawr. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf â'i wraig, Carol, a'i deulu, ei eglwys ei hun a'r eglwys yn fyd-eang sy'n hiraethu amdano. Fel hyn yr adroddodd y Parch. Nan W. Powell-Davies, Ysgrifennydd Cyffredinol EBC, am ei golli:

Bu Robert yn frawd annwyl iawn i mi fel arweinydd newydd, a byddaf yn parhau i ddiolch i'r Arglwydd am ei ffyddlondeb a'i gyngor doeth.

Wrth groesawu gwesteion yn ystod diwrnod cyntaf y Gymanfa Gyffredinol yn 2022, uchafbwynt y diwrnod i mi oedd cael ymhlith ein gwesteion grŵp niferus o Eglwys Bresbyteraidd India, y mae ein cysylltiad hanesyddol yn parhau i fod yn gysylltiad byw. Cydnabuwyd dyfnder y berthynas hon gan siaradwr gwadd y dydd, neb llai na Robert ei hun. Roedd Robert Cunville yn weinidog ordeiniedig yn Eglwys Bresbyteraidd India, yn ddiwinydd, bugail, ac efengylydd. Gweithiodd hefyd ochr yn ochr â'r diweddar Barch. Dr Billy Graham fel efengylwr cyswllt. Roedd hefyd yn Llywydd y Gymdeithas Beibl Unedig, rhwydwaith byd-eang o gymdeithasau Beiblaidd sy'n gweithredu mewn dros 240 o wledydd a thiriogaethau. Ef oedd y person cyntaf o Asia i gael ei benodi i'r rôl hon.

Dyma ei eiriau doeth o gysur ac anogaeth i ni wrth i ni wynebu dirywiad yma yng Nghymru: 'Nid cynulliad cymdeithasol yn unig yw'r eglwys, na chynulliad crefyddol; llysgenhadaeth ddwyfol ydyw, lle dygir llywodraeth Duw yn y nefoedd i fod ar y ddaear.' Daeth Dr Cunville â'i neges i ben drwy ddyfynnu Evan Roberts, a fu'n allweddol yn niwygiad 1904 yng Nghymru, ac a arweinidodd at ganlyniadau byd-eang: 'Yr hyn sydd ei angen arnom yw gweledigaeth newydd o'r Groes. A bydded i'r cariad nerthol, hollgynhwysfawr hwnnw tuag ato Ef beidio â bod yn ddylanwad ysbeidiol, yn mynd a dod fel tonnau'r môr mwyach, ond yn angerdd sy'n llywodraethu dros ein heneidiau bob amser.

A ninnau yma yng Nghymru yn galaru heddiw, diolchwn am y cysur sydd i'w ganfod yng ngair Duw: "Yn awr yr wyt yn gollwng dy was yn rhydd, O Arglwydd, mewn tangnefedd yn unol â'th air; oherwydd y mae fy llygaid wedi gweld dy iachawdwriaeth, a ddarperaist yng ngŵydd yr holl bobloedd: goleuni i fod yn ddatguddiad i'r Cenhedloedd ac yn ogoniant i'th bobl Israel."
(Luc 2:29-32; BCND)

## Cyfarchion Blwyddyn Newydd Dda Cymorth Cristnogol

Mae blwyddyn arall wedi mynd heibio wrth i ni nodi pen-blwydd Cymorth Cristnogol yn 80 oed! Roedd 2025 yn llawn cefnogaeth gennych chi a'r eglwysi drwy apeliadau, Wythnos Cymorth Cristnogol, Eisteddfod yr Urdd, y Sioe a'r Eisteddfod Genedlaethol, apêl diolchgarwch a'r Nadolig. Diolch am bob rhodd, pob gweddi a phob gweithred ar hyd y flwyddyn sydd wedi gwneud cymaint o wahaniaeth mewn cymunedau drwy waith partneriaid Cymorth Cristnogol.

Diolch hefyd am y croeso gefais ym mhob gweithgaredd ar hyd a lled y wlad.

**Cadw'r dyddiad yn rhydd**
Ym mis Mawrth hoffem eich gwahodd i gyfarfod arbennig pan fyddwn yn rhoi diweddariad ar ein gwaith ac yn cyflwyno adnoddau Wythnos Cymorth Cristnogol 2026. Byddwn hefyd yn croesawu Jane (Swyddog Rhaglenni ein gwaith yn Kenya) a Janet (Prif Weithredwr ein partner yn Kenya – Beacon of Hope) atom am sgwrs.

Lleoliad: Capel y Groes, Wrecsam
Dyddiad: dydd Mercher, 18 Mawrth 2026
Amser: 10.00–12.00

Os byddwch o fewn cyrraedd i Wrecsam, gobeithio y gallwch ymuno â ni ar gyfer y cyfarfod hwn. Bydd mwy o wybodaeth ar gael yn nes i'r amser.

*Llinos Roberts*
Swyddog Ysgogi Eglwysi
a Chodi Arian Cymru



# Gair o Gyngor yr Ysgolion Sul

Wrth edrych ymlaen at 2026, tybed oes yna gynlluniau ar y gweill i estyn allan yn genhadol i gyhoeddi'r newyddion da yn ein cymunedau?

Oes yna ddarpariaeth gwaith plant ac ieuenctid yn eich gofalaeth / bro? Os nad oes yna, tybed oes yna gyfleon newydd yn eu cynnig eu hunain i chi? Yn dilyn cyhoeddi adroddiad 'Y Diwygiad Tawel' yn ystod 2025, tybed sut fedrwn ni estyn gwahoddiad i deuluoedd yn ein hardal i ymgysylltu â'r eglwys?

Cofiwch fod Cyngor yr Ysgolion Sul yno i'ch cefnogi.

Dyma ddolenni i ddau gyhoeddiad newydd gennym:

- CYSylltiad 2026: – bwletin sy'n crynhoi ein darpariaeth ddiweddaraf i eglwysi ac ysgolion Sul Cymru
- catalog adnoddau rhyngweithiol: wedi ei ddiweddaru i gynnwys holl gyhoeddiadau 2025 a rhai o lyfrau newydd 2026 sydd ar y ffordd yn fuan.

Mae ein pum gwefan hefyd yn cael eu diweddaru yn gyson, yn llawn gwybodaeth a chanllawiau:

**www.ysgolsul.com** – Mae adrannau newydd diweddar yn cynnwys canllawiau ar gyfer gweddïo gyda phlant, darllen y Beibl a gwaith ysgolion.

**www.gobaith.cymru** – Ychwanegwyd dros 30 o emynau newydd i'r wefan yn ystod 2025, ac mae nifer eto i ymddangos yn fuan. Os ydych chi'n cyfansoddi neu'n cyfieithu emynau cyfoes, cofiwch eu hanfon atom er mwyn i ni eu hawdurdodi gan yr awduron gwreiddiol a'u gosod ar y wefan.

**www.cristnogaeth.cymru** – Mae'r adrannau gwybodaeth newydd yn cynnwys adrannau ar gefnogi gwaith cefn gwlad, canllawiau dementia, ffydd a chwaraeon, a newid hinsawdd.

**www.beibl.net** – Mae'r wefan hon yn parhau'n brysur a phoblogaidd, gyda channoedd o ymwelwyr bob wythnos.

**www.gair.cymru** – Ychwanegwyd llinell amser newydd sydd ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim, ynghyd â 12 pecyn o werslyfrau newydd yn y gyfres 'Y Gwir Ffordd'.

Cofiwch gysylltu os medrwn fod o gefnogaeth i'ch gweinidogaeth a'ch cenhadaeth.

Gan ddymuno bendith Duw ar weithgarwch y flwyddyn newydd.

*Aled Davies*
*Cyfarwyddwr*




Undeb Bedyddwyr Cymru
The Baptist Union of Wales

## YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL

Mae Undeb Bedyddwyr Cymru yn dymuno penodi Ysgrifennydd Cyffredinol i wasanaethu fel Prif Weithredwr ac i ddarparu arweinyddiaeth strategol ar draws yr Undeb, Corfforaeth Undeb Bedyddwyr Cymru a Chronfa Adeiladu Bedyddwyr Cymru mewn cyfnod trawsffurfiol yn ei hanes.

Rydym yn chwilio am arweinydd gyda gweledigaeth sydd, yn ddelfrydol, yn meddu ar sgiliau profedig mewn llywodraethiant, rheoli newid ac arweinyddiaeth ysbrydol. Elfen hanfodol o'r rôl yw cynnig arweiniad ac anogaeth i eglwysi a gweinidogion yr Undeb.

Mae'r swydd, yn ddelfrydol, ar gyfer gweinidog Bedyddiedig ordeiniedig a chydnabyddedig ac iddynt enw da, neu berson lleyg Bedyddiedig ac iddynt enw da gyda phrofiad o arweinyddiaeth ragorol mewn cyd-destun Cristnogol, elusennol neu gymunedol. Disgwylir cynefindra â gofynion niferus llywodraethiant elusennol, profiad o ddatblygiadau cyfredol mewn gweinidogaeth a chenhadaeth, ac adnabyddiaeth lwyr o'r cyd-destun Cristnogol yng Nghymru.

Mae'n Ofyniad Galwedigaethol, yn ôl amodau Deddf Cydraddoldeb 2010 Atodiad 9 Rhan 1 Paragraff 3, fod deiliad y swydd yn Gristion mewn gair a gweithred ac yn cytuno â Datganiad Egwyddor Undeb Bedyddwyr Cymru, yn unol â'r cyfrifoldeb i ddarparu arweinyddiaeth ysbrydol i gynrychioli a hyrwyddo gweledigaeth Gristnogol a gwerthoedd yr Undeb, ac i fodelu'r ddisgyblaeth Gristnogol ym mywyd yr Eglwysi a thîm y swyddfa.

Mae'r gallu i gysylltu a chyfathrebu yn effeithiol mewn cyd-destun dwyieithog yn hanfodol.

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 6 Chwefror 2026

Dyddiad cyfweld: 19 Chwefror 2026

Pe baech yn dymuno trafod y swydd yn gyfrinachol yn y lle cyntaf, cysylltwch â'r Ysgrifennydd Cyffredinol, y Parchedig Judith Morris, ar 07872 824165.

Mae ffurflen gais a phecyn gwybodaeth ar gael drwy gysylltu â swyddfa UBC ar 0345 222 1514 neu post@ubc.cymru.

# Adolygiad Llywodraeth Cymru o Orchymyn Eithriadau Gofal Plant – diweddariad

Ar 11 Awst 2025 lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar Orchymyn Drafft Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2026 a'r cynnig ar gyfer Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ar gyfer Darparwyr Gofal Plant, Chwarae a Gweithgareddau. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad dros gyfnod o ddeuddeg wythnos a daeth i ben ar 3 Tachwedd 2025.

O dan Orchymyn Drafft Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2026, caiff darparu addysg grefyddol ei ystyried yn bennaf o fewn yr eithriad "Hyfforddiant a Thiwtora". Mae'r gorchymyn drafft yn cadw "astudiaeth grefyddol neu ddiwylliannol" fel un o'r mathau penodol o weithgareddau y gellir eu heithrio rhag cofrestru fel gofal dydd. Fodd bynnag, mae Gorchymyn Drafft 2026 yn cyflwyno terfynau llymach ar y ffordd y darperir yr addysg hon:

- **Trothwy Cofrestru ar gyfer Plant dan 5 oed**: Os yw person yn darparu addysg grefyddol i blant 4 oed neu iau am fwy na 2 awr ar unrhyw un diwrnod, mae'n debygol y bydd gofyn iddo gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru.
- **Ehangder y Gweithgareddau**: Dim ond os yw darparwr yn cynnig hyfforddiant neu diwtora mewn dim mwy na dau fath o weithgaredd o'r rhestr gymeradwy y caiff ei eithrio (sy'n cynnwys chwaraeon, y celfyddydau perfformio, y celfyddydau a chrefft, astudio ysgol/cymorth gyda gwaith cartref, ac astudiaeth grefyddol/ ddiwylliannol).
- **Gofal Digwyddiadol**: Er mwyn i'r eithriad fod yn gymwys, rhaid i unrhyw ofal a ddarperir yn ystod y sesiynau hyn fod yn ddigwyddiadol i'r prif ddiben o ddarparu addysg grefyddol.

Yn ogystal ag ymateb Cytûn, derbyniwyd 97 ymateb ysgrifenedig pellach, ynghyd â 35 o gyfranogwyr a gyfrannodd drwy grwpiau ffocws. Mae'r ymatebion yn adlewyrchu ystod eang o safbwyntiau gan unigolion, grwpiau a sefydliadau cyrff rheoleiddio, a phlant a theuluoedd.

Cynhaliwyd gweithdai ymgysylltu gyda phlant a phobl ifanc gan Plant yng Nghymru. Cymerodd 41 o blant a phobl ifanc rhwng 10 a 25 oed ran yn y gweithdai hyn. Er na fydd y gweithdai'n ffurfio rhan o'r ymgynghoriad ffurfiol, darparwyd mewnwelediadau gwerthfawr, a bwriedir cyhoeddi'r gwaith hwn ochr yn ochr â chrynodeb ymatebion yr ymgynghoriad.



**Dull Dadansoddi a Gwneud Penderfyniadau**
Mae pob ymateb wedi'i adolygu a'i ddadansoddi gan swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn nodi themâu allweddol, patrymau, a meysydd o gytundeb neu wahaniaeth barn. Dadansoddwyd adborth ansoddol a meintiol ill dau. Cefnogodd Cytûn egwyddor gwell rheoleiddio a chynnal eithriadau i gefnogi darpariaethau ffydd-seiliedig a sector gwirfoddol eraill i blant, yn ogystal â'u rhieni a allai fod yn cymryd rhan eu hunain mewn gweithgareddau crefyddol neu weithgareddau eraill. Nodwyd hefyd gyda Llywodraeth Cymru fod diffyg tystiolaeth empirig glir ar hyn o bryd bod newid yn angenrheidiol, a bod perygl y gallai newidiadau arwain at ganlyniadau anfwriadol a rhoi darpariaeth bresennol mewn perygl.

Bydd eglwysi a sefydliadau am ystyried yr effaith y gallai'r newidiadau hyn ei chael ar eu darpariaeth a'u rhaglenni unigol.

**Opsiwn Cymeradwyo Gwirfoddol**
O dan y newidiadau arfaethedig, gall darparwyr addysg grefyddol sy'n parhau i fod wedi'u heithrio rhag cofrestru gorfodol (er enghraifft, y rhai sy'n gweithredu am lai na 2 awr) ddewis ymuno â'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol newydd. Mae hyn yn eu galluogi i ddangos eu bod yn bodloni safonau diogelwch sylfaenol, megis gwiriadau DBS a hyfforddiant diogelu, ac yn galluogi teuluoedd sy'n cymryd rhan i hawlio Gofal Plant Di-dreth neu gymorth gofal plant drwy Gredyd Cynhwysol.

Awgrymir y bydd eglwysi a sefydliadau sydd â'r capasiti a'r arbenigedd angenrheidiol am ystyried sut y gallai'r cynllun hwn gefnogi eu gweinidogaeth.

**Camau Nesaf**
Bydd y camau nesaf yn cynnwys profi pellach a thrafodaethau gyda'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol. Rydym wedi ymrwymo i gadw rhanddeiliaid yn gyfredol wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo. Bydd dadansoddi ymatebion yr ymgynghoriad ar y cynnig ar gyfer Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ar gyfer Darparwyr Gofal Plant, Chwarae a Gweithgareddau yn cael ei wneud nesaf.

**Amserlenni Allweddol**

Dylai eglwysi a grwpiau Cristnogol eraill sy'n darparu gofal plant fel gwasanaeth digwyddiadol nodi a bod yn ymwybodol o'r gwaith parhaus yn y maes hwn o bolisi cyhoeddus.

Disgwylir cyhoeddi crynodeb o ymatebion yr ymgynghoriad erbyn diwedd mis Ionawr, neu cyn gynted ag sy'n bosibl wedyn

Gosod y Gorchymyn yn y Senedd ym mis Chwefror 2026

Craffu gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Trafodaeth yn y Senedd


Disgwylir y bydd Gorchymyn Eithriadau Drafft 2026, os caiff ei basio gan y Senedd, yn cael ei wneud ym mis Ebrill 2026, ac yn dod i rym ym mis Ebrill 2027, ac y bydd yn gwbl orfodadwy erbyn mis Ebrill 2028 yn dilyn cyfnod pontio o flwyddyn.

Bydd Cytûn yn parhau i fonitro'r maes polisi hwn ac i gynrychioli safbwynt cytbwys o groesawu gwelliannau i'r ddarpariaeth heb roi rhaglenni presennol mewn perygl. Byddwn hefyd yn parhau i alw ar y llywodraeth i sicrhau bod yr holl newidiadau arfaethedig i'r rheoleiddio yn cael eu hasesu o ran risg ac yn cael eu seilio ar sylfaen gadarn o dystiolaeth glir o arfer gorau.

*Iestyn Davies*
*Swyddog Polisi Cytûn*

# Codi’r Llen: merched yr Hen Destament a’u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




## Codi’r Llen 13 – Ymson Lea

Rydw i wedi profi sut y gellir mesur a phwyso serch mewn ffordd annheg, a hefyd sut mae Duw yn gweld ac yn gwrando. Cefais fy rhoi i Jacob; nid fy newis i oedd hynny. Y noson honno, ces fy nghofleidio ganddo, ond gwyddwn mai rhywun arall oedd yn ei galon. Ro’n i wedi byw yng nghysgod Rachel ers blynyddoedd. Roedd hi’n brydferth. Cwympodd Jacob mewn cariad â hi mor rhwydd, mewn eiliadau. Gwelais hyn yn digwydd: y ffordd y meddalodd cyhyrau ei wyneb wrth edrych arni. Clywais y cariad yn ei eiriau ac yng ngoslef ei lais. Byddai’n sefyll yn stond wrth iddi fynd heibio. Roedd eisoes wedi rhoi ei hun iddi ac am ei phriodi.

Cofiaf wedyn i fy nhad ddweud wrthyf am draddodiad a threfn pethau: mai’r ferch gyntaf-anedig oedd i gael ei dewis gyntaf. Arhosais yn fud, heb deimlo y gallwn wrthwynebu hyn. Camais i’r berthynas hon gan wybod na fyddwn yn cael fy nerbyn yn llawn. Roedd fy nghalon yn llawn pryder; nid peth hawdd oedd gwybod am y siom oedd i ddod. Ac yn wir, bore trannoeth, wrth iddo godi’r gorchudd oddi ar fy llygaid, gwelais y braw yn llenwi ei lygaid. Bu raid i Jacob a minnau oddef y peth a dilyn y drefn o ddathlu am wythnos. Ond yna, ar ôl wythnos yn unig (ie, dim ond un), fe gafodd Rachel fod yn wraig iddo hefyd.

Ro’n i mewn priodas heb gariad, a fedrwn i wneud dim am y peth. Sut allwn i gystadlu â’u perthynas nhw? Amhosib! Ac ar ben hynny, do’n i ddim yn beichiogi ac ro’n i eisiau plant. Yn gyfrinachol, ro’n i’n gweddïo ar Dduw bob dydd, yn gofyn yn daer iddo weld fy angen am blant.

Yna, un diwrnod, teimlais rywbeth yn digwydd tu mewn imi, ac ymhen rhai misoedd ro’n i wedi rhoi genedigaeth i fab! Meddyliais yn sicr y byddai hyn yn cryfhau teimladau Jacob tuag ataf. Cefais fwy o feibion, a chyda pob un tyfodd fy ngobaith y byddai Jacob yn fy ngharu. Llanwodd fy nghalon â chariad mam, ond er imi ennill y ras honno (doedd Rachel ddim yn beichiogi), parhau i droi ei olygon tuag ati hi a wnaeth Jacob. Doedd y peth ddim yn deg: yr un na châi ei charu’n cael plant a’r un a gâi ei charu’n ddiffrwyth!

Ond wedi imi esgor ar fy mab Jwda, penderfynais ganolbwyntio ar roi fy nghlod i Dduw. Dyna pryd y daeth newid yn fy meddwl, a sylweddolais nad oedd raid imi gael fy ngharu gan ddyn i gael fy nghydnabod a’m derbyn gan Dduw.

Ond roedd y gystadleuaeth yn dal yno rhyngom fel chwiorydd. Cenfigennodd Rachel wrth i Reuben, fy mab, ddod o hyd i ffrwythau cariad mewn rhyw gae; bargeiniodd amdanynt drwy roi cyfle imi gysgu gyda Jacob. Mewn gwirionedd, yn y ddêl hon, fe brynais Jacob i mi fy hun. Dywedais wrtho fod raid iddo gysgu gyda mi. Ro’n i wedi deall bod modd imi ffeindio ffyrdd o gael yr hyn ro’n i ei eisiau. Oherwydd hynny, ces fwy o feibion ac un ferch hefyd. Roedd pob un ohonynt, fy mhlant, yn f’atgoffa nad yw ffafr Duw bob amser yn dilyn trefn dynion.

Alla i ddim esgus nad oeddwn i’n dyheu am yr hyn oedd gan Rachel. Ro’n i weithiau, yn oriau mân y bore, yn hiraethu am gael fy newis, am fod ar y brig. Serch hynny, gwyddwn hefyd fod Duw wedi rhoi rhywbeth amgen imi, rhywbeth dyfnach. Er na chefais fy ngharu fel y dymunwn, cefais fy nghydnabod ac ohonof fi y daeth llinach werthfawr.

**Holi**

- Gwelwyd Lea gan Dduw, er iddi deimlo bod eraill yn ei hanwybyddu. Sut mae’r gwirionedd hwn yn ein codi ni o’r ymdeimlad a gawn weithiau o deimlo’n eilradd?
- Dewisodd Lea roi clod i Dduw yn hytrach na disgyn i iselder. Oes modd i ni, fel unigolion ac eglwysi, newid ein ffordd o feddwl ynghanol dyheadau nad ydynt efallai’n cael eu gwireddu?
- Mae’r gystadleuaeth rhwng Lea a Rachel yn siapio’u stori. A welwch chi arwyddion fod yr arfer o farchnata (da a drwg) a chymharu yn effeithio ar ein cymdeithas a’n cymdeithasu heddiw (yn enwedig ym myd y gwefannau cymdeithasol)?

**Gweddi**

Dduw sy’n ein gweld a’n cydnabod, bob un ohonom, bydd yn gymorth inni ymddiried ynot a rhoi clod i Ti. Diolch i Ti am ein derbyn fel ag yr ydym. Maddau i ni am gymharu ein hunain ag eraill, a dysg ni i gredu yn ein gwerth. Cadw ein golygon arnat Ti bob amser. Amen.

*Siân Meinir*

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 25 Ionawr, am 7:30yh – Cariad**
Bydd Rhodri Gomer yn ymweld â Bannau Brycheiniog i olrhain hanes cynnar Santes Dwynwen, nawddsant cariadon Cymru. Mae’n dysgu am ei charwriaeth drychinebus â Maelon a dicter ei thad, Brychan Brycheiniog. Stori sy’n dechrau’n drist ond yn gorffen yn hapus: ar ôl dioddef torcalon ei hunan, fe gysegrodd Dwynwen ei bywyd i wireddu breuddwydion cariadon eraill. Daw’r canu mawl o addoldai ledled Cymru a chawn fwynhau perfformiadau gan Aled Wyn Davies a Joy Cornock.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 25 Ionawr, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Hywel Wyn Edwards

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 25 Ionawr, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Ian Sims, Llanelli

# Cofio'r Daith Ddiddorol

Roedd hi'n naturiol i bawb gredu, ar ôl i mi orffen fy hyfforddiant diwinyddol yn 1962, mai i un o gymoedd glofaol y de y byddwn i'n derbyn galwad. Wedi'r cyfan, cychwynnais gylchgrawn sosialaidd o'r enw *Aneurin*, sefydlu Cymdeithas Sosialaidd yn y Coleg Diwinyddol, a dod yn swyddog y blaid Lafur yn sir Aberteifi. Fe wnes i hefyd godi storm ar dudalennau'r *Goleuad* yn sgil fy mhrotestiadau yn erbyn *apartheid* a chyhoeddi llyfryn yn erbyn dienyddio, *Na Ladd.*

Dyna a fu. Cefais alwad o Ystrad Mynach a'r Bargoed, ond nid oedd y cylchoedd yn fy nenu. Yna, bu dau gapel yn nhref Maesteg ar fy ôl, ond dewis peidio mynd yno eto. Roeddwn wedi cael lle fel myfyriwr yng Ngholeg Westminster, Prifysgol Caergrawnt, ond heb gymhorthdal, ac fe ddaeth yr addewid yn rhy hwyr. Erbyn hynny, yn rhagluniaethol, roeddwn wedi derbyn galwad o ddau gapel yng ngwaelod Cwm Cynon: y Tabernacl, Abercynon, a Hermon, Penrhiwceibr. Gan fod fy nyweddi, Meinwen Llywelyn o Abercwmboi, wedi cael swydd fel athrawes yn dysgu Cymraeg yn Rhyd-y-waun, roedd popeth yn cydweithio er daioni. Felly, i ferw ardaloedd diwydiannol, gyda dau bwll glo yn cadw'r rhelyw o'r dynion mewn gwaith, yr euthum yn hyderus.

Eironi arall oedd fod fy nhad wedi treulio cyfnod fel glöwr ym mhwll glo Abercynon, fel y bu Hedd Wyn o'i flaen. Bwriais i'r dasg, gyda Meinwen, o wneud ymdrech lew i 'roi anadl einioes' yn y blychau ennaint ac yn y gymdeithas Gymreig. Fy nhasg gyntaf oedd dod i adnabod teuluoedd, cynnal y gweiniaid, addysgu a mwynhau cwmni'r ifainc nad oedd bron neb yn poeni amdanynt, a chreu partneriaeth ag enwadau eraill. Roeddwn yn eciwmenydd, nid o argyhoeddiad yn unig, ond wrth reddf.

Yn 1962 roedd yn Abercynon bedwar capel Cymraeg ac ym Mhenrhiwceibr dri chapel Cymraeg, a phump o weinidogion yn gofalu amdanynt. Heddiw, nid oes un gweinidog, a dim ond un capel ar agor. Yn wir, penderfynais wneud rhywbeth nad oedd yn gyffredin yn hanes gwŷr eraill y goler gron, sef canolbwyntio ar fugeilio. Cerddwn strydoedd Aberfan a Merthyr Vale erbyn 1965. Canlyniad hyn oedd chwyddo cynulleidfaoedd y tri chapel, a hynny am y gwyddai'r aelodau fyddai'n absennol y byddwn yn galw i'w gweld y



dyddiau ar ôl y Sul. Yr unig ffordd i gadw Ben o'u tai oedd mynd i'r capel!

Roedd gennyf bobl werinol i'm cynorthwyo. Y gŵr mwyaf hirben a galluog yn Abercynon oedd Arthur Jones, hen golier, yn wreiddiol o Lanllechid, ger Bethesda. Bu'n gefn mawr i mi, a byddai'r ddau ohonom yn mynychu llysoedd yr enwad gyda'n gilydd. Teulu arall a fu'n garedig oedd teulu'r Rhingyll Evan Edwards. Un o Bontrhydfgendigaid oedd ef, ac ar ôl gadael yr heddlu, derbyniodd swydd yn cadw golwg ar bwll glo Abercynon. Deuai ei briod o Lanbedr Pont Steffan ac am fy mod innau o Landdewibrefi, yr oedd gennym gymaint i'w drafod. Yn byw gyda hwy yr oedd y ferch, Jean, a'i phriod, Emrys Edwards, trysorydd yr eglwys, a weithiai yn swyddfa pwll glo Caerffili. Tyfodd cyfeillgarwch mawr rhyngom. Heb fod yn bell oddi wrthynt hwy trigai Abram ac Olwen Evans (hithau'n nyrs gymunedol wych), y ddau yn Gymry deallus. Y peth cyntaf ddywedodd Abram wrthyf oedd: 'Mae'n rhaid i chi gwrdd â'r mab yng nghyfraith.' A dyma gychwyn cyfeillgarwch gyda Gwilym Prys-Davies. Ac yn 2019 cyhoeddais gofiant iddo, sef *Cymro i'r Carn*. Yn Abercynon y cychwynnodd y bartneriaeth a esgorodd ar yr hyn a gyflawnodd ef a'i bartneriaid yn Aberfan ac ar wasg newydd sbon – Cyhoeddiadau Modern Cymraeg, sydd yn dal yn fy ngofal, 62 mlynedd yn ddiweddarch.

Ym Mhenrhiwceibr deuthum yn gyfaill da i ysgrifennydd y capel, W. H. Rees, prifathro wedi ymddeol. Byddwn yn ei gasglu o'i gartref yn fy nghar a'i gludo i bob man. Gwraig arbennig arall oedd Prudence Parry, chwaer i daid Simon Brooks, ffrind mawr i mi ym myd ysgolheictod. Roedd ei gŵr, hen löwr, wedi colli ei iechyd, a hynny yn bennaf oherwydd iddo gael ei ddal am ddeuddeg awr mewn lifft yn y lofa. Sut cynhaliodd ei hun? 'Cenais emynau Cymraeg' oedd yr ateb.

O'r stydi yn Teifi House paratoais astudiaeth gymdeithasol o'r cwm a enillodd radd MSc (Econ.) i mi, a chyhoeddwyd hi yn ddiweddarach o dan y teitl *Chapels in the Valley* (1975). Gwelais pam roedd Ymneilltuaeth yn marw yn y cymoedd. Tyfodd y mudiad law yn llaw â'r diwydiant glo. Roedd dirywiad yn y maes glo yn hau hadau dirywiad y capeli. Credwn y byddai Ymneilltuaeth Gymraeg yn gwneud sylw o'm hymchwil ond fel arall y bu. Roeddent yn amharod i glywed y feddyginiaeth ac yn amharod i ddefnyddio fy ymchwil.

Yn hollol ddirybudd, yn 1967 daeth tri o arweinwyr Capel Cymraeg Heathfield Road, Lerpwl, yr holl ffordd i wrando arnaf yn pregethu ar nos Sul yn Abercynon. Ac o fewn ychydig wythnosau derbyniais wahoddiad i fynd ar brawf yno, yn un o dri. Derbyniais y gwahoddiad, er na wyddwn ddim am Lerpwl, ar wahân i'r Beatles.

Mae sut yr aeth y sosialydd hwn i Lerpwl a adeiladwyd ar elw'r fasnach gaethweision yn ddirgelwch. Nid dyna'r unig wrtheb yn fy mywyd. Rebel radical, ciciwr yn erbyn y tresi a throi byrddau'r cyfnewidwyr arian; eto, yr wyf mor archoffeiriadol fy ngwedd a'i wisg â'r prif rabi.

Roeddwn am sialens fwy. Gadewais Abercynon gyda sefydlu dosbarth a dyfodd erbyn heddiw yn ysgol Gymraeg. Yn Lerpwl ac i blith cymdeithas lewyrchus o ran y Gymraeg, nid oedd y dirywiad wedi cyrraedd y 27 capel oedd yn y dalgylch ar ei rawd. Mor wahanol oedd y Sul prawf. Ar ôl i mi dderbyn yr alwad, mor wahanol oedd y cynulleidfaoedd, yn cynnwys Cymry a anwyd yn Lerpwl, a'r Cymry alltud – yn feddygon, darlithwyr, athrawon, fferyllwyr, nyrsys a gweinyddesau. Grŵp arall oedd y gwerinwyr na fu mewn coleg ond a weithiai fel seiri coed a seiri maen, nifer ohonynt yng nghwmni adeiladu J. W. Jones a'i dri mab, yn aelodau o'r ddiadell. Roedd eraill yn gweithio yn ffatri Ford yn

(parhad ar y dudalen nesaf)

## Cofio'r Daith Ddiddorol

(parhad o dudalen 7)

Halewood ac i gwmnïau amrywiol. Ceid cynulleidfaoedd cryf fore a nos Sul ac ar nos Lun yn y Cyfarfod Gweddi neu'r Seiat. Roedd gennyf saith gweinidog yn aelodau o fy ngynulleidfa. Llwyddais yn wyrthiol i gynyddu nifer y bobl ieuanc a ddeuai i'r oedfa i 60 mewm nifer.

Fy mlaenoriaeth gyntaf oedd trefnu a gosod gwaith yr ifanc ar sylfeini cadarn. Bu'n rhaid i mi wrthwynebu arweinwyr yr ifainc o fewn yr Henaduriaeth oedd am ganoli'r gweithgarwch yn Seel Street ar nos Sul. Penderfynais hysbysu'r gynulleidfa ein bod yn mynd i ddarparu cyfarfod ein hunain, a lluniaeth yn rhan o'r cyfarfyddiad. O fewn tair blynedd roedd y nifer wedi dyblu, a chawn 60 i 70 o ieuenctid rhwng dwy ar bymtheg a phump ar hugain oed i fynychu'r oedfa. Ar ôl yr oedfa yn yr ysgoldy caem Gylch Trafod yr Ifanc o hanner awr wedi saith i naw o'r gloch. Weithiau byddai'r drafodaeth yn parhau am ddwy awr, yn arbennig pan fyddai siaradwr lliwgar o Gymru yn dod atom. Cofiaf yn dda am y seiciatrydd Dr Dafydd Alun Jones yn hedfan yn ei hofrennydd o Fôn i faes awyr Speke er mwyn dod atom ac yn siarsio'r blaenoriaid i dalu am wersi hedfan ar fy rhan. Cofiaf yn dda'r gôl-geidwad Dai Davies yn ymuno yn yr oedfa a'r Cylch Trafod, ac eraill a ddaeth yn adnabyddus yng Nghymru, fel y gwleidydd Ieuan Wyn Jones a'i briod. Bu Eirian yn mynychu ein cyfarfodydd gweddi yn yr wythnos ac roedd yn ferch ysbrydol iawn.

Yn 1975, a minnau'n bensaer uniad o gael tri chapel yn un, a llwyddo i sicrhau bod gofal gennyf amdanynt, roedd yna 456 o aelodau, 67 o blant a 60 o rai ifainc. Ond y flwyddyn honno, ar ôl saith mlynedd o lewyrch mawr, cefais rybudd o'r newid oedd ar fin digwydd. Roedd atyniad Lerpwl i bobl ifanc Cymru yn lleihau ac atyniad Caerdydd yn cynyddu. Yno roedd dyfodol y Cymry ifanc, ac fel yr aeth y blynyddoedd heibio gwelwyd dirywiad mawr yn nheyrngarwch yr ifainc a ddeuai i brifysglion Lerpwl, i Fethel ac i'r diwylliant Cymraeg. Erbyn hyn, llond llaw yn unig a ddaw atom.

Bu'n rhaid i mi ysgwyddo yr un cyfrifoldebau â phe bawn wedi aros yng Nwyrain Morgannwg – cau capeli. Gwrthodais ganiatáu hynny yn Lerpwl a'r cyffiniau. Y feddyginiaeth oedd uno'r capeli, a chefais gefnogaeth i sefydlu cymdeithasau amrywiol i hybu'r bywyd crefyddol Cymraeg. Sefydlais gaplaniaeth i Gymry Glannau Mersi, Cyngor Eglwysi Lerpwl a'r Cyffiniau, Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi, yr elusen Gobaith mewn Gweithredoedd ac Ymddiriedolaeth Gogledd-ddwyrain India–Cymru. Yn ogystal â hynny, ygrifennais ddeg ar hugain o gyfrolau yn Gymraeg a Saesneg ar Gymry Lerpwl a'r cyffiniau.

Fe'm gorfodwyd gan benaethiaid y Cyfundeb i ymddeol yn y flwyddyn 2007, ac fel Tudur Rowlands a Gareth Edwards yr oeddwn yn hynod o drist a blin. Ond gan nad oedd neb i arwain a bugeilio, bodlonais fod yn weinidog rhan-amser ar Fethel a Bethania am 13 blynedd arall.

Daeth yn amser ymddeol ar ôl 59 mlynedd (53 yn Lerpwl) gan fod gennyf weinidog yng nghanol ei ddyddiau i gymryd drosodd ym mis Ebrill 2021. Mae ei faes ef yn fwy o ran daearyddiaeth gan ei fod yn cynnwys Penbedw a Manceinion, ond llawer, llawer llai o aelodau. Erbyn 2021 yr oedd cael gweinidog llawn amser yn rhodd fawr i'r Cymry alltud, a chroesawyd y Parchedig Robert Parry yn gynnes a charedig a chefnogol.

Oddi ar 1990 bu'r cyfrifoldeb ar fy ysgwyddau i am lannau Mersi i gyd, o Southport i Widnes, gan nad oedd gweinidog arall llawn amser Cymraeg ar gael. Yn 2021 medrwn fwynhau rhyddid o 'fagad gofalon bugail'. Da oedd hynny ond yn 2024 daeth rhyfel o fyd i'm meddiannu a misoedd mewn ysbytai, a bu'n rhaid ymladd yn ddygn a ffyddiog i oroesi hyd fis Rhagfyr 2025.

*D. Ben Rees*

## Gwasanaeth Nadolig Chwiorydd Myrddin 2025

Dathlwyd gŵyl y Nadolig eleni gan Chwiorydd Henaduriaeth Myrddin mewn oedfa Naw Llith a Charol yng Nghapel Babell/Zion Newydd, Pen-sarn, Caerfyrddin.

Cymerwyd rhan gan aelodau o gapeli dosbarthiadau'r Henaduriaeth, gyda Mrs Helen Gibbon yn cyfeilio a'r Parch Emyr Williams yn gofalu am yr ochr dechnegol.

Diolchodd y Llywydd, Mrs Angela Skym, i bawb fu wrth'n paratoi ac i'r cyn-Lywydd, Mrs Elizabeth Jackson am ei chyfraniad diflino a diwyd am dros ddeng mlynedd.

Yn dilyn yr oedfa cafwyd cyfle i gymdeithasu dros ddysgled a'r mins peis angenrheidiol!

*Elinor Wyn Nicholson*
*Ysgrifenyddes*



Anrhegu Mrs Elizabeth Jackson

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol 01745817584 / 07957510346 yn ystod oriau swyddfa
post@panel.cymru panel.cymru
neu Thirtyone:eight 0303 003 1111
(am gyngor tu allan i oriau swyddfa)

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru